OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 3225 (Cy.279)

# AER GLÅN, CYMRU

## Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Rhagfyr 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *8 Rhagfyr 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 20(6) a 63(1) o Ddeddf Aer Glân 1993(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygiadau

**2.**—(1) Yn yr Atodlen (Tanwyddau Awdurdodedig) i Reoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2008(**3**), ar ôl paragraff 8, mewnosoder—

"**8A.** Brics glo Briteheat, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, North East Lincolnshire—

(a) wedi'u cyfansoddi o lo carreg (yn cyfateb i ryw 60% i 85% o gyfanswm eu pwysau), golosg petrolewm (yn cyfateb i ryw 30% o gyfanswm eu pwysau), glo rhwym (yn cyfateb i ryw 15% o gyfanswm eu pwysau), a rhwymwr triagl ac asid ffosfforig (yn cyfateb i weddill eu pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses rholio-wasgu a thriniaeth wres ar ryw 300°C;

(**1**) 1993 (p.11).
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad Cenedlaethol gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S. 2008/3100 (Cy.274).

(c) sy'n frics glo ar siâp clustogau a chanddynt linell wedi'i hindentio'n rhedeg o'u cwmpas ac sy'n pwyso 30 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac

(ch) nad yw sylffwr yn cyfateb i fwy na 2% o gyfanswm eu pwysau."

(2) Ar ôl paragraff 41 o'r Atodlen, mewnosoder—

"**41A.** Brics glo Therma, a weithgynhyrchir gan Maxibrite Limited yn Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

(a) wedi'u cyfansoddi o ronynnau glo caled (yn cyfateb i ryw 84% o gyfanswm eu pwysau), golosg petrolewm (yn cyfateb i ryw 12% o gyfanswm eu pwysau) a rhwymwr starts (yn cyfateb i weddill eu pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses rholio-wasgu a thriniaeth wres ar ryw 250°C;

(c) sy'n frics glo hirgrwn/ar siâp deigryn a chanddynt linell drwy'r canol ac sy'n pwyso 26 gram y fricsen ar gyfartaledd; a

(ch) nad yw sylffwr yn cyfateb i fwy na 2% o gyfanswm eu pwysau."

(3) Ar ôl paragraff 42 o'r Atodlen, mewnosoder—

"**42A.** Boncyffion tân Tiger Tim, a weithgynhyrchir gan De Lange B V., Rustenburgerweg 3, 1646 WJ Ursem, yr Iseldiroedd—

(a) wedi'u cyfansoddi o gŵyr hydrin (yn cyfateb i ryw 50% o gyfanswm eu pwysau) a blawd llif (yn cyfateb i ryw 50% o gyfanswm eu pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses triniaeth wres ac allwthio;

(c) sy'n foncyffion tân rhyw 280 o filimetrau o hyd a 75 o filimetrau x 75 o filimetrau x 75 o filimetrau a chanddynt un rhigol yn rhedeg ar hyd pob un o'u pedwar wyneb sy'n 280 o filimetrau o hyd ac sy'n pwyso 1.1 kilogram y boncyff ar gyfartaledd; a

(ch) nad yw sylffwr yn cyfateb i fwy na 0.2% o gyfanswm eu pwysau.".

*Jane Davidson*
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

4 Rhagfyr 2009

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/3100 (Cy.274)) er mwyn ychwanegu tri thanwydd newydd (Brics glo Briteheat, Brics glo Therma a Boncyffion tân Tiger Tim) at y rhestr o danwyddau y datganwyd eu bod yn danwyddau awdurdodedig at ddibenion Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993.

Mae adran 20 o Ddeddf Aer Glân 1993 ("Deddf 1993") yn darparu, pan fo simnai naill ai—

(a) yn simnai adeilad; neu

(b) yn simnai sy'n gwasanaethu ffwrnais bwyler sefydlog neu beiriannau diwydiannol,

fod meddiannydd yr adeilad, neu (yn ôl y digwydd) y person sy'n meddu ar y bwyler neu'r periannau yn euog o dramgwydd os yw'r simnai mewn ardal rheoli mwg ac yn gollwng mwg. Er hynny, mae'n amddiffyniad os gellir profi mai drwy ddefnyddio tanwydd awdurdodedig yn unig yr achoswyd y gollyngiad honedig.

Yng Nghymru, ystyr tanwydd awdurdodedig yw tanwydd y datganwyd ei fod yn awdurdodedig gan Reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.

Cafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn. Gellir cael copi ohono gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.